# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 6 Tachwedd 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor
5 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Diwydiannau Creadigol

**C8 Janet Ryder:** Pa fesurau newydd sydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod cymunedau ledled Cymru'n gweld manteision economaidd y diwydiannau creadigol? (OAQ19986)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Mae diwydiannau creadigol yn awr yn rhan bwysig o economi'r byd, ac yr wyf yn gweithio gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i sicrhau y gwireddir potensial llawn y sector hwn ar draws Cymru.

Enghraifft o fenter newydd yw'r cyllid ar y cyd a ddarperir gan Awdurdod Datblygu Cymru, (£200,000 ar hyn o bryd ac ar gyfer y ddwy flynedd nesaf) a Chyngor Celfyddydau Cymru, (£100,000 ar hyn o bryd ac ar gyfer y ddwy flynedd nesaf) ar gyfer y rhaglen fentora a gwybodaeth i ddiwydiannau creadigol arbenigol ar draws Cymru, wedi ei dyfeisio a'i darparu gan Cultural Enterprise.

### Llong Ganoloesol, Casnewydd

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen i gadw holl olion y llong ganoloesol a ddarganfuwyd yng Nghasnewydd? (OAQ19948) [R]

**Jenny Randerson:** Yr unig rannau o'r llong na symudwyd er mwyn eu diogelu yw'r blaen a'r starn, y bydd y contractwyr yn eu cloddio yn fuan. Os caiff unrhyw beth ei ddarganfod, caiff ei symud o dan oruchwyliaeth Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent. Y newyddion diweddaraf, fodd bynnag, yw y dinistriwyd y starn gan amddiffynfeydd glan yr afon diweddarach, a dadfeiliodd y blaen dros y canrifoedd.

### Pêl-droed Cymru

**C10 Peter Black:** Beth yw lefel bresennol y cymorth i bêl-droed Cymru a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (OAQ19945)

**Jenny Randerson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £220,000 i Gymdeithas Pêl-droed Cymru drwy Gyngor Chwaraeon Cymru—y grant mwyaf a roddwyd i un gamp. Derbyniodd pêl-droed hefyd dros £5 miliwn mewn arian loteri. Yr wyf yn disgwyl gwneud datganiad yn fuan iawn yn rhoi fy ymateb i adroddiad terfynol y Fforwm Pêl-droed.

### Annog Menywod i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon

**C11 Kirsty Williams:** Beth sy'n cael ei wneud i annog menywod i gymryd rhan mewn chwaraeon ledled Cymru? (OAQ19970)

**Jenny Randerson:** Mae cynyddu cyfranogiad menywod mewn chwaraeon yng Nghymru yn un o fy mlaenoriaethau, yn unol â 'Cynllun i Gymru 2001' Llywodraeth y Cynulliad. Yr wyf wedi gofyn i'r cyngor chwaraeon ganolbwyntio ar y mater hwn, a adlewyrchir yn y mentrau y mae wedi eu cyflwyno, er enghraifft, y fenter merched yn gyntaf a'r cynllun datblygu golff. Bydd pob menter a rhaglen newydd yn ymdrin â chyfranogiad menywod fel blaenoriaeth.

### Y Celfyddydau yng Nghymru

**C12 Mick Bates:** Ym mha ffyrdd y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol er mwyn eu hannog i chwarae rhan fwy cyflawn yn y gwaith o ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru? (OAQ19974)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn gweithio gydag awdurdodau lleol mewn sawl ffordd i ddatblygu'r celfyddydau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn aelod o Gymru'n Creu, y mae wedi cyfrannu at ddatblygu 'Creative Future: Cymru Greadigol', ac mae'n chwarae rhan flaenllaw yn ei weithrediad.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyd-ariannu swyddogion datblygu'r celfyddydau mewn awdurdodau lleol, sy'n cael eu cynrychioli ar gynghorau lleol y cyngor celfyddydau.

### Celfyddydau Gweledol yng Nghymru

**C13 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae'n eu cymryd i hybu'r celfyddydau gweledol yng Nghymru? (OAQ19983)

**Jenny Randerson:** Bydd cynllun gweithredu newydd ar gyfer y celfyddydau gweledol, sydd wedi ei gynnwys o fewn strategaeth pum mlynedd Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y celfyddydau, 'Cefnogi Creadigrwydd', yn cryfhau'r ddarpariaeth gyfredol o orielau yng Nghymru. Caiff fy nghynlluniau ar gyfer hybu celfyddydau gweledol yng Nghymru eu cynnwys yn fy strategaeth ddiwylliannol, 'Creative Future: Cymru Greadigol'. Yr oeddwn yn falch iawn o lansio gwobr celfyddydau gweledol Artes Mundi yn ddiweddar ac y flwyddyn nesaf, am y tro cyntaf, bydd gan Gymru bresenoldeb cenedlaethol yn y Biennale yn Fenis.

### Cynllun Sportsmatch

**C14 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt a helynt y cynllun Sportsmatch? (OAQ19955)

**Jenny Randerson:** Mae cynllun Sportsmatch Cymu yn datblygu'n dda iawn. Ers ei greu ddeng mlynedd yn ôl, cynhyrchwyd buddsoddiad o dros £6 miliwn gan y sectorau preifat a chyhoeddus i gefnogi dros 900 o brosiectau chwaraeon ar lawr gwlad. Yr wyf wedi cynyddu cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at y cynllun i £450,000 yn 2002-03.

### Y Gymraeg

**C15 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gymorth ariannol i'r Gymraeg? (OAQ19972)

**Jenny Randerson:** Yn ddiweddar, cyhoeddais fuddsoddiad ychwanegol o £16 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi a hybu'r Gymraeg. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn, a gaiff ei sianelu drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn cynrychioli cynnydd sylweddol yng nghefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad tuag at yr iaith. Yr wyf hefyd yn bwriadu gwneud cyhoeddiadau pellach am y Gymraeg dros y tri mis nesaf. Caiff gwybodaeth ychwanegol am y modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r Gymraeg ei darparu yn y cynllun gweithredol cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog, a gaiff ei lansio cyn diwedd y flwyddyn nesaf.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

**C7 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin? (OAQ20016)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Yr wyf yn cwrdd â fy nghyd-weinidogion yn y DU yn fisol i drafod ystod eang o faterion gwledig, gan gynnwys diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at ddiwygio'r polisi yn cynnwys ymrwymiad cryf i newid, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer datgyplu a newid o gymorthdaliadau uniongyrchol i gyllid datblygu gwledig. Mae hyn, felly, yn cyd-fynd yn agos ag athroniaeth cynigion arolwg ganol tymor y Comisiwn Ewropeaidd.

### Hela Cadnoid

**C8 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i ddod â hela cadnoid i ben? (OAQ20022)

**Michael German:** Nid yw hela â chwn yn fater datganoledig. Gwyddoch fod Alun Michael, y Gweinidog Gwladol dros Faterion Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, wedi cynnal cyfres o wrandawiadau ar y mater hwn yn gynnar ym mis Medi fel rhan o ymarfer ymgynghori DEFRA. Deallaf fod canfyddiadau'r gwrandawiadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac y bydd Mr Michael yn gwneud datganiad ar sut y bydd DEFRA yn symud ymlaen ar y mater hwn maes o law.

### Swyddfeydd Post Gwledig

**C9 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gyd-weinidogion yn San Steffan ynghylch y £450 miliwn i swyddfeydd post gwledig? (OAQ20000) ***Trosglwyddwyd i gael ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Nid wyf yn ymwybodol o gyhoeddiad ffurfiol gan San Steffan o gymorth ariannol ar gyfer rhwydwaith swyddfeydd post gwledig.

### Diwydiant Bwyd Cymru

**C10 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaethau i hybu diwydiant bwyd Cymru? (OAQ19932)

**Michael German:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi'r cyfrifoldeb o gydlynu darparu'r cynlluniau gweithredu a grewyd yn 1999 ar gyfer tri sector allweddol cig oen a chig eidion, organig, a llaeth i gyfarwyddiaeth bwyd Awdurdod Datblygu Cymru. Gyda chyngor gan y bartneriaeth bwyd-amaeth, bu i'r strategaethau hyn gael eu monitro a'u diweddaru yn rheolaidd, a buont yn llwyddiannus o ran canolbwyntio ymdrechion prif chwaraewyr y sectorau perthnasol wrth weithredu'r camau angenrheidiol i wella rhagolygon hirdymor pob un o'r sectorau hyn. Mae strategaethau pellach ar gyfer datblygu coetir a biomas, garddwriaeth, a physgodfeydd a ffermio dŵr yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

### Cyllideb 2003-04

**C11 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd cyllideb 2003-04 yn dod â manteision i gefn gwlad Cymru? (OAQ19923)

**Michael German:** Mae'r gyllideb ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig ar gyfer 2003-04 £22 miliwn yn uwch na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol—bron i 10 y cant o gynnydd, sy'n golygu buddsoddiad sylweddol yn nyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru ac mewn ardaloedd gwledig yn fwy cyffredinol. Mae'r cynnydd yn cynnwys darpariaeth newydd sylweddol o £3.05 miliwn ar gyfer mesurau i hybu adfywio cymunedau gwledig.

**Gweithredu dros Gymunedau Gwledig**

**C12 Karen Sinclair:** Sut bydd rhaglen newydd y Cynulliad, gweithredu dros gymunedau gwledig, yn dod â budd i bobl De Clwyd? (OAQ20025)

**Michael German:** Bydd y rhaglen weithredu ar gyfer cymunedau gwledig yn berthnasol ar draws Cymru wledig. Cyn bo hir, byddwn yn gwahodd ceisiadau gan sefydliadau lleol i gael cyllid o dan y cynllun hwn a bydd pobl De Clwyd yn rhan o'r broses hon. Hefyd, mae seminar yn cael ei threfnu ar gyfer mis Tachwedd i helpu cyrff sydd eisiau gwneud cais am gymorth.

**Y Rheol 20 Diwrnod**

**C13 Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch y rheol 20 diwrnod? (OAQ20028)

**Michael German:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau rhyng-adrannol parhaus ar bob mesur, gan gynnwys cyfyngiadau ar symud anifeiliaid, i fynd i'r afael â bygythiad clwy'r traed a'r genau.

**Y Stoc Eogiaid yng Nghymru**

**C14 John Griffiths:** Beth yw'r diweddaraf am ymgynghoriad Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddiogelu'r stoc eogiaid yng Nghymru? (OAQ19933)

**Michael German:** Tybiaf fod yr ymarfer ymgynghori y cyfeiriwch ato yn ymwneud â chynllun gweithredol eogiaid ar gyfer aber yr afon Hafren. Bwriad y cynllun yw diogelu dyfodol y stociau tra'n gwella daliadau a'r enillion economaidd cysylltiedig i'r pysgodfeydd. Mae'r cynllun ar ffurf drafftio ar hyn bryd, a 29 Tachwedd 2002 yw'r dyddiad arfaethedig ar gyfer ei lansiad cyhoeddus. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cwrdd â swyddogion o'r Cynulliad a DEFRA ar 8 Tachwedd i ystyried ffyrdd i roi'r cynllun hwn ar waith.

Bwriedir i'r cynllun wneud y canlynol:
- gwneud y gorau o nifer yr eogiaid sy'n dychwelyd i bysgodfeydd dŵr cartref;
- cadw a gwella ffitrwydd ac amrywiaeth stoc yr eogiaid;
- gwneud y gorau o gyfanswm gwerth economaidd stoc dros ben.

**Rheol 20 niwrnod**

**C15 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rheol 20 niwrnod? (OAQ20010) [W]

**Michael German:** Yn ogystal â gwell bio-ddiogelwch, mae cyfyngiadau ar symudiadau yn lleihau lledaeniad daearyddol ac yn caniatáu mwy o amser i ddarganfod ac adnabod y clefyd. Mae'r rheol 20 diwrnod yn cyfateb i gyfnod heintus y clefyd ac yn seiliedig ar y cyngor proffesiynol cyfredol gorau.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Hysbysebion Llywodraeth y Cynulliad

**C5 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru'r papurau a ddefnyddiwyd ar gyfer hysbysebion Llywodraeth y Cynulliad dros y 12 mis diwethaf a chost yr hysbysebion hynny? (OAQ19961) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Dim ond ers cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ar 1 Mawrth 2002 y cafwyd hysbysebu dan frand Llywodraeth Cynulliad Cymru. O 1 Mawrth hyd heddiw mae'r manylion fel a ganlyn. Cyfanswm y gwariant yw £268,476. Mae hynny'n cynnwys yr holl hysbysebion recriwtio, y penodiadau cyhoeddus a'r ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd. Dyma'r cyhoeddiadau a ddefnyddiwyd:

*The Western Mail*
*Liverpool Daily Post*
*Golwg*
*Y Cymro*
*The Guardian*
*Western Telegraph*
*Shropshire Star*
*South Wales Evening Post*
*South Wales Argus*
*Barry & District News*
*Penarth Times*
*Brecon and Radnor Express*
*Wrexham Leader*
*County Times*
*Gwent Gazette*
*Farmers Weekly*
*Health Service Journal*
*Accountancy Age*
*Public Finance and Accountancy*
*British Medical Journal*
*The Pharmaceutical Journal*
*Planning*
*Surveyor*

*Atebwyd cwestiwn 6 (OAQ20040) yn y Cyfarfod Llawn.*

### Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**C7 Brian Gibbons:** A gynhaliwyd archwiliad i werthuso pa mor hawdd yw gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w defnyddio? (OAQ19963)

**Carwyn Jones:** Archwiliwyd gwefan y Cynulliad Cenedlaethol oddeutu dwy flynedd yn ôl fel rhan o'r prosiect i'w hail-gynllunio. Cynhaliwyd profion ar y safle newydd gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Chyngor Cymru i'r Deillion. O bryd i'w gilydd, bydd trydydd parti yn ymgymryd â'r gwaith o werthuso safleoedd y Llywodraeth, a chynhwysir safle'r Cynulliad o bryd i'w gilydd yn yr adroddiadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Cynulliad wedi comisiynu archwiliadau pellach ei hun.

### Yr Hawl i Weld Gwybodaeth

**C8 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hawl i weld y wybodaeth sydd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ20049)

**Carwyn Jones:** Mae'r hawl i weld gwybodaeth sydd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn fater i'r cyrff cyhoeddus eu hunain. Mae'n ofynnol ar i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad gydymffurfio, lle bo modd, â'r agwedd agored a osodwyd yn ein Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae deddfwriaeth benodol i lywodraeth leol ar fod yn agored.

### Lwfansau'r Aelodau

**C9 David Melding:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyhoeddi gwybodaeth am lwfansau'r Aelodau? (OAQ20042)

**Carwyn Jones:** Fel y dywedais yn ystod y ddadl ar y cynllun cyhoeddi ar 23 Hydref, bydd gwybodaeth ar gael yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 3.3. Mater i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Llywodraeth y Cynulliad, yw penderfynu pa rai o fanylion lwfansau'r Aelodau ddylai fod yn gyhoeddus.

### Cyfle Cyfartal ym Mhenodiadau'r Llywodraeth

**C10 Alun Cairns:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau cyfle cyfartal ym mhenodiadau'r Llywodraeth? (OAQ20038)

**Carwyn Jones:** Mae ein cynllun gweithredu, 'Gwneud Cydraddoldeb yn Rhan o'r Brif Ffrwd wrth wneud Penodiadau Cyhoeddus', yn cynnig rhaglen gynhwysfawr â'r bwriad o annog ceisiadau sy'n alewyrchu, yn fras, boblogaeth Cymru, yn enwedig o ran hil, rhyw ac anabledd. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal am ei gefnogaeth wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu.

### Cyfleoedd Cyfartal Ymysg Plant ag Anghenion Arbennig

**C11 Cynog Dafis:** Sut mae'r Gweinidog yn gweithredu i hybu cyfleoedd cyfartal ymysg plant ag anghenion arbennig? (OAQ20053) [W]

**Carwyn Jones:** Er fy mod yn cadeirio'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, fy nghyfaill, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n gyfrifol am hyrwyddo darpariaeth gyfartal ac addas i blant ag anghenion addysgol arbennig. Deallaf fod y darpariaethau yn Neddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau 2001 yn atgyfnerthu hawliau plant ag anghenion addysgol arbennig i dderbyn eu haddysg yn y brif ffrwd, a bydd gofyn i ysgolion wneud newidiadau er mwyn gwella mynediad.

### Cyfleoedd Cyflogi i Bobl o Leiafrifoedd Ethnig a Chroenddu

**C12 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cyfleoedd cyflogi ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig a chroenddu yn y cyrff cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ20046)

**Carwyn Jones:** Sefydlodd y Cynulliad beilot o gynllun cysgodi yn y gweithle i bobl o leiafrifoedd aphobl groenddu yn Ionawr 2002. Mae adroddiad ar y cynllun yn cael ei ysgrifennu ar hyn o bryd, a chaiff ei drafod yn y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a chyfarfod bord gron y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gydraddoldeb, gyda'r bwriad i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru ei fabwysiadu'n gyffredinol.

*Tynnwyd cwestiynau 13 (OAQ20047) ac 14 (OAQ20050) yn ôl.*

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**C15 Janet Davies:** Ym mha ffordd y mae'r Gweinidog yn hyrwyddo bod yn agored a thryloyw yn y ffordd y caiff y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad eu gweithredu? (OAQ20045)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf i'r ateb i OAQ20049.